------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Hydref 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 294(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel y Gweinidog Pontio Ewropeaidd)

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Stadco yn dilyn newyddion ei fod yn bwriadu cau ei ffatri yn Llanfyllin, gan effeithio ar 129 o weithwyr?

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o drafferthion yn y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar Roche Pharmaceuticals, a goblygiadau hyn o ran capasiti profi yn GIG Cymru?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-20

(15 munud)

**NDM7420** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cynnig bod Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01 -20 a osodwyd gerbron y Senedd ar 30 Medi 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliadau yn yr adroddiad.

## 6 Cynnig i ddirprwyo awdurdod ar gyfer gwneud y trefniadau i recriwtio Comisiynydd Safonau newydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc

(5 munud)

**NDM7419** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag adran 3 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, a pharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Mesur hwnnw yn

dirprwyo’r gwaith o wneud trefniadau ar gyfer recriwtio’r Comisiynydd Safonau (ond nid ar gyfer penodi’r person a nodir) i Glerc y Senedd.

Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

## 7 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro

(15 munud)

**NDM7418** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Douglas Bain CBE TD wedi’i benodi yn Gomisiynydd dros dro yn unol ag Adran 4(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (“y Mesur”) ar 13 Tachwedd 2019.

2. Yn ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad [Taliad y Comisiynydd Safonau dros dro] (“yr adroddiad”) yn ymwneud â’r cynnig i addasu telerau penodiad Mr Bain

3. Yn addasu telerau penodiad y Comisiynydd dros dro, yn unol ag adran 4(4)(d) o’r Mesur, fel y nodir yn Atodiad A o’r adroddiad.

Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd: Diwygio'r Senedd: y camau nesaf

(30 munud)

**NDM7417** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ‘Diwygio’r Senedd: Y camau nesaf’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Medi 2020.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd i’r cynnig hwn.**

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd: Crynodeb o'r argymhellion

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig

(60 munud)

**NDM7406** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Senedd Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Awst 2020.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Medi 2020.

## 10 Dadl Plaid Cymru - Yr heriau sy'n wynebu sectorau'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

(60 munud)

**NDM7421** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth Cymru a'r heriau y mae'r sectorau hyn yn eu wynebu yn sgil COVID-19.

2.Yn croesawu'r archwilio o'r newydd sydd wedi bod ar dreftadaeth amrywiol Cymru yn ystod misoedd y pandemig yng ngoleuni mudiad Mae Bywydau Duon o Bwys ac ymgyrchoedd eraill.

3. Yn cefnogi galwadau i sicrhau y caiff ein treftadaeth ei hyrwyddo a'i chyflwyno mewn modd sensitif a chynhwysol o'i holl amrywiaeth gyfoethog yn y dyfodol.

4. Yn gresynu at y ffaith bod cynllun cefnogi swyddi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn annhebygol o achub llawer o leoliadau celfyddydol a cherddoriaeth byw ac atyniadau diwylliannol rhag cael eu cau, nac achub gyrfaoedd gweithwyr y

celfyddydau (llawrydd a chyflogedig) er gwaetha'r ffaith yr oeddent yn hyfyw cyn COVID-19.

5. Yn gwrthwynebu cynigion i ddatblygu un neu ragor o amgueddfeydd milwrol ym Mae Caerdydd.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda Cyngor y Celfyddydau, Tasglu Llawrydd Cymru, a grwpiau a sefydliadau eraill ym maes y celfyddydau a diwylliant i weithredu argymhellion yr adroddiad: 'Ailfantoli ac Ailddychmygu: Strategaethau i Gefnogi Gweithwyr Llawrydd ym Maes y Celfyddydau a Pherfformio';

b) defnyddio'r gyfundrefn gynllunio i gyfyngu ar a rheoli'r gallu i adeiladau a ddefnyddid at ddibenion celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth cyn i Ddeddf Coronafeirws 2020 ddod i rym gael caniatâd cynllunio newid defnydd tra bo'r pandemig yn parhau i effeithio ar y gallu i ddefnyddio'r lleoliadau hynny at eu prif ddiben;

c) archwilio creu amgueddfa genedlaethol hanes a threftadaeth pobl ddu a phobl o liw i'w lleoli yn Tiger Bay fel cynnig amgen posibl i'r cynnig ar gyfer un neu ragor o amgueddfeydd milwrol;

d) sicrhau mwy o gyfranogiad pobl ddu a phobl o liw yn y celfyddydau a chyrff diwylliannol, fel y gelwir amdano yn y Maniffesto ar gyfer Cymru Gwrth-hiliaeth gan Gynghrair Hil Cymru;

e) sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog yng ngweithlu ac allbwn sector y celfyddydau yn ei chyfanrwydd wrth symud ymlaen;

f) cyflwyno gwarchodaeth statudol i atal colli enwau lleoedd Cymraeg o'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig; a

g) sicrhau bod pob adran o'r llywodraeth yn gweithredu yn strategol tuag at gyflawni chweched nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef Cymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac i ymgysylltu'n drylwyr ac yn ystyrlon gyda sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth wneud hynny.

Ailfantoli ac Ailddychmygu: Strategaethau i Gefnogi Gweithwyr Llawrydd ym Maes y Celfyddydau a Pherfformio

Deddf Coronafeirws 2020 (Saesneg yn unig)

[Cynghrair Hil Cymru: Ein Maniffesto dros Gymru Wrth-Hiliol]

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 1 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Gwelliant 2** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu pecyn achub y celfyddydau gwerth £1.57 biliwn gan Lywodraeth Ei Mawrhydi a'r swm canlyniadol o £59miliwn sy'n deillio ohono i Gymru.

**Gwelliant 3** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu cynlluniau ar gyfer amgueddfa meddygaeth filwrol ym Mae Caerdydd ac yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau ledled Cymru sy'n dathlu treftadaeth filwrol gyfoethog Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 4** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu pwynt 5 ac ailrifo yn unol â hynny.

**Gwelliant 5** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Ym mhwynt 6, dileu is-bwyntiau b) a c) a rhoi yn eu lle:

b) yn cydnabod y pwyslais y mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei roi ar les diwylliannol drwy greu cynlluniau a phenderfyniadau cynllunio, sy'n cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu defnyddiau diwylliannol ar gyfer cymunedau drwy ei ddull o greu lleoedd.

c) yn gweithio i sicrhau bod hanes Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei gynnwys a'i adlewyrchu ar draws rhwydwaith amgueddfeydd Cymru a thrafod ag arweinwyr cymunedau opsiynau i'r dyfodol er mwyn sicrhau sylw cyfiawn i'r hanes yma.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 6 a 7 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

Gwelliant 8 Rebecca Evans (Gwyr)

Ym mhwynt 6, dileu is-bwyntiau e) a f) a rhoi yn eu lle:

e) yn gweithio i sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd gweithlu ac allbwn sector y celfyddydau;

f) yn cydnabod pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg ac yn parhau i ystyried opsiynau er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu colli o'r amgylcheddau adeiledig a naturiol.

Gwelliant 9 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 6:

yn nodi canlyniad yr adolygiad annibynnol o ariannu Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn galw am gynnydd o £1.445 miliwn mewn cyllid sylfaenol yn y flwyddyn ariannol nesaf i roi cyllid y sefydliad ar sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 10, 11, 12 a 13 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

## 11 Cyfnod Pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7415** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Y tu hwnt i COVID-19: economi gynaliadwy i Flaenau'r Cymoedd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Hydref 2020

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 30/09/2020 i'w hateb ar 07/10/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

1 OQ55641

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella cysylltiadau rheilffordd â Blaenau Gwent?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

2 OQ55649

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yn rhanbarth Gogledd Cymru dros dymor y Senedd hon?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ55636

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cymorth ychwanegol i fusnesau mewn ardaloedd lle mae cyfyngiadau COVID-19 newydd, fel Llanelli?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

4 OQ55647

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr economi ymwelwyr yng ngogledd Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

5 OQ55645

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru ynghylch ymbellhau cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ55629

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau lletygarwch yn ystod pandemig y coronafeirws?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

7 OQ55656

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r diwydiant bysiau yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**8** OQ55633

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**9** OQ55654

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twf economaidd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**10** OQ55651

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad cyflogwyr at arian cyhoeddus yn sgil COVID-19?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**11** OQ55658

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu sicrhau bod Islwyn yn adeiladu'n ôl yn well yn dilyn pandemig COVID-19?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**12** OQ55661

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r sectorau hynny o'r economi yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau symud diweddaraf yng Ngogledd Cymru?

# Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**1** OQ55659

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael am effaith Brexit ar y sector modurol yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**2** OQ55655

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd yn ddiweddar i baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**3** OQ55642

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sut y bydd rhaglen Llywodraeth Cymru i adfer ar ôl y coronafeirws o fudd i Flaenau Gwent?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**4** OQ55632

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Bil Marchnad Fewnol y DU ar Borthladd Caergybi?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**5** OQ55628

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r risg o darfu ar gyflenwadau bwyd ffres os bydd Llywodraeth y DU yn methu â sicrhau cytundeb masnach â'r UE cyn diwedd y cyfnod pontio?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**6** OQ55638

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad Cymru Ein Dyfodol ar gefnogaeth ar gyfer adfer ac ailgodi ar ôl COVID-19 yn y dyfodol?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**7** OQ55653

**(e)**

Pa gyflwyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i ymchwiliad Tŷ'r Cyffredin i gymorth cyfreithiol, o ystyried pryderon ynghylch anawsterau o ran cael gafael ar gymorth cyfreithiol yn ystod pandemig COVID-19?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**8** OQ55637

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch effaith Brexit heb gytundeb ar y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**9** OQ55662

**(e)**

Sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb ar ddiwedd y cyfnod pontio?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**10** OQ55657

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru am ddyfodol economi Cymru yn yr adferiad ar ôl COVID-19?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**11** OQ55648

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am asesiad parhaus Llywodraeth Cymru o effaith Bil Marchnad Fewnol y DU ar Ganolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**12** OQ55650

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch a yw Bil Marchnad Fewnol y DU wedi cryfhau safbwynt negodi'r DU gyda'r UE?